# Diogelu Cymru gyda'n Gilydd.

## Penawdau Newyddion

### Mwy na £680 miliwn yn cyrraedd busnesau ar gyfer cymorth COVID-19

Mae grantiau cymorth busnes gwerth dros £680 miliwn wedi cyrraedd busnesau ledled Cymru i helpu iddynt ymateb i heriau ariannol Covid-19, yn ôl cyhoeddiad gan Weinidogion.

### Coronafeirws (COVID-19): cefnogaeth i fusnesau

Rhyddhau ardreth busnes, grantiau a benthyciadau i fusnesau i'w helpu yn ystod yr anhawster achosir gan COVID-19.

### Gweinidogion yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod cyllid yn cyrraedd elusennau yng Nghymru

Cyhoeddodd Adran Addysg Llywodraeth y DU a'r Swyddfa Gartref gyllid o £7.6m ar gyfer elusennau cenedlaethol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc agored i niwed sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef trais domestig, camfanteisio rhywiol a chamdriniaeth.

### Gorchuddion wyneb tair haen yn cael eu hargymell, ond ddim yn orfodol, mewn rhai sefyllfaoedd yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn cyngor diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd ac yn argymell y dylai pobl yng Nghymru wisgo gorchuddion wyneb tair haen mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n bosibl cadw pellter cymdeithasol.

### Gorchuddion wyneb: cwestiynau cyffredin

Sut a phryd y gallech ddefnyddio gorchudd wyneb i amddiffyn y bobl o'ch cwmpas, os ydych yn dewis gwisgo un.

## Sut i wneud gorchudd wyneb 3 haen

Cyfarwyddiadau cam wrth gam i wneud gorchudd wyneb 3 haen, anfeddygol eich hun gartref.

## Cymorth i bobl agored i niwed gan awdurdodau lleol a grwpiau gwirfoddol

Bydd **pobl sy'n agored iawn i niwed** yn cael **llythyr gan Brif Swyddog Meddygol Cymru**.

Bydd rhai pobl sydd heb dderbyn llythyron yn agored i niwed, ac angen cymorth o bosib i gael bwyd a meddyginiaeth. Mae'n bosib y gall teulu, ffrindiau neu gymdogion helpu.

Os nad oes gennych unrhyw un a all eich helpu gyda bwyd neu feddyginiaeth, mae'n bosib y gallwch gael cymorth gan eich awdurdod lleol neu gan grwpiau gwirfoddol.

## Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau Addysg: Diogelu Addysg (COVID-19)

Canllawiau i ysgolion a lleoliadau gynyddu eu gweithrediadau ar y safle yn ddiogel ar gyfer staff a dysgwyr.

## Canllawiau ar addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith wyneb yn wyneb: coronafeirws

Canllawiau i golegau a darparwyr hyfforddiant ar gadw staff a dysgwyr sy'n bresennol yn ddiogel o 15 Mehefin 2020.

## Ysgolion yn cynyddu gweithrediadau o 29 Mehefin: coronafeirws

Cwestiynau a ofynnir yn aml am sut y gall ysgolion weithio o 29 Mehefin 2020.

## Canllawiau wedi'u cyhoeddi i helpu ysgolion, colegau a lleoliadau gofal plant

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i ysgolion er mwyn iddynt allu cynllunio i ddisgyblion ddychwelyd ar 29 Mehefin i "ailgydio, dal i fyny, paratoi ar gyfer yr haf a mis Medi".

## Diogelu staff a phlant rhag y coronafeirws mewn gofal plant

Sut i baratoi eich gwasanaeth gofal plant i ganiatáu i fwy o blant fynychu, a'u diogelu nhw a'ch staff rhag y coronafeirws.

## Canllawiau ar ddysgu dros dymor yr haf: Diogelu Addysg (COVID-19)

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor ar y dysgu a'r addysgu y gallai ysgolion a lleoliadau ddymuno eu darparu dros weddill tymor yr haf.

## Addysg uwch a chymorth i myfyrwyr: coronafeirws

Gwybodaeth am addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr yn ystod y pandemig coronafeirws.

## Datganiad Ysgrifenedig: Taliad arbennig i'r gweithlu gofal cymdeithasol

## Adfer gwasanaethau deintyddol yn dilyn COVID-19: llythyr gan y Prif Swyddog Deintyddol

Llythyr yn egluro cynigion ar adfer gwasanaethau deintyddol i weithwyr iechyd deintyddol proffesiynol.

## Y Gell Cyngor Technegol: defnyddio gorchuddion wyneb yng nghyd-destun COVID-19

Cyngor COVID-19 roddwyd i Weinidogion Cymru ar 8 Mehefin 2020.

## Ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â coronafeirws (COVID-19)

Data a'r dadansoddiad diweddaraf ar effaith coronafeirws ar gymdeithas yng Nghymru.

## Gweithwyr hanfodol (allweddol) y coronafeirws: cymhwysedd prawf

Diffinnir y rhain fel gweithwyr critigol ar gyfer profion coronafeirws.

## Cynadleddau i'r wasg dyddiol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cynhadledd i'r wasg am coronafeirws yn ddyddiol am 12.30pm, gyda chyfieithydd BSL. Mae modd gweld y cynadleddau yn fyw ar sianel Twitter @LlywodraethCym, BBC One Wales ac S4C.

## Astudiaeth Symptomau COVID

Helpwch ni i ymladd coronafeirws trwy adrodd ar eich iechyd yn ddyddiol, hyd yn oed os ydych chi'n teimlo'n iawn.

Gallwch chi helpu'r GIG yn y frwydr yn erbyn y coronafeirws drwy gwblhau arolwg iechyd dyddiol ar yr **ap Astudiaeth Symptomau COVID**. Mae'r ap hwn yn addas ar gyfer pawb, nid i'r unigolion sydd â symptomau yn unig.

Bydd yr app yn ein helpu i ddeall symptomau a lledaeniad COVID-19. Drwy ateb rhai cwestiynau cyflym, gallwch chi ein helpu i gynllunio ein hymateb i coronafeirws.

Ni fyddwn yn rhannu eich atebion y tu hwnt i'r GIG a sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r GIG i ymateb i'r coronafeirws.

# Profi, olrhain a diogelu

Mae ymgyrch ar y gweill i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr allweddol o strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth ddiweddara am y strategaeth, gan gynnwys canllawiau i gyflogwyr, ar y wefan. (**https://gov.wales/test-trace-protect-coronavirus**).Mae deunydd fideo wedi cynhyrchu i ddefnyddio mewn ymgyrchoedd ac i rhanddeiliaid rhannu ar ei sianelu. Mae modd i chi lawrlwytho'r **deunydd digidol fan hyn** a byddem yn gwerthfawrogi os fyddech yn rhannu ar eich sianelu cymdeithasol, er mwyn rhannu gwybodaeth am y strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu.

## Gwybodaeth

### Addysg a gofal plant

Canllawiau ar coronafeirws i rieni, pawb sy'n gweithio mewn addysg a darparwyr gofal plant

### Busnesau a chyflogwyr

Cymorth i helpu busnesau a sefydliadau'r trydydd sector yr effeithiwyd arnynt gan y coronafeirws

### Cyngor iechyd

Aros gartref, hunanynysu, cael cefnogaeth fel person eithriadol o fregus

### Gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol

Canllawiau’r coronafeirws ar gyfer y GIG a phobl sy’n gweithio mewn gofal cymdeithasol, cymunedol a phreswyl

## Tai

Canllawiau i landlordiaid, cartrefi mewn parciau (symudol) a gwasanaethau cysgu allan yn ystod y pandemig coronafeirws

## Teithio

Cyngor am y coronafeirws i bobl sy’n dod nôl o wlad dramor neu’n bwriadu teithio

## Gwirfoddoli (trydydd sector)

Gwirfoddoli yn ystod pandemig y coronafeirws, cymorth i’r trydydd sector

## Gwasanaethau cymunedol

Cynllunio, tân, cam-drin domestig a thrais rhywiol

## Swyddi, sgiliau a chefnogaeth ariannol

Help gyda budd-daliadau, i aros yn y gwaith a chael sgiliau newydd

## Deunydd marchnata digidol

Deunydd marchnata gan gynnwys posteri a dogfennau hygyrch.